**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

John Griffiths AC,
Gweinidog yr Amgylchedd a
Datblygu Cynaliadwy,
Llywodraeth Cymru,
5ed Llawr, Tŷ Hywel,
Bae Caerdydd, CF99 1NA.

8 Rhagfyr 2011

Annwyl Weinidog

**CLA61 - Rheoliadau Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain (Hysbysebu a Masnachu) (Cymru) 2012**

Bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn trafod yr Offeryn Statudol uchod yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2011 a chytunwyd y dylwn ddwyn adroddiad y Pwyllgor ar rinweddau'r Rheoliadau i'ch sylw, a gyhoeddwyd o dan Reol Sefydlog 21.3.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Offeryn hwn ar y sail "ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad" (Rheol Sefydlog 21.3(ii)).

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor ar yr Offeryn hwn yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Rhagfyr 2011, ac mae wedi'i atodi er gwybodaeth. Bydd yr adroddiad yn un o'r papurau ategol ar gyfer y ddadl ar y Rheoliadau yn y Cyfarfod Llawn. Rwy'n siŵr y bydd o gymorth i Aelodau'r Cynulliad pe gallech gyfeirio at y materion a godwyd yn yr adroddiad yn ystod y ddadl.

Rwy'n anfon copi o'r adroddiad hwn at y Prif Weinidog er gwybodaeth, ac rwyf hefyd wedi gwneud trefniadau i ddwyn yr adroddiad a'r llythyr hwn i sylw Aelodau'r Cynulliad.

Yn gywir

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol